# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr William Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Colin Hughes, Geraint Lloyd-Williams, Dewi Owens, Arwel Roberts, Gareth Sandilands a/ac David Simmons (Cadeirydd).

Mynychodd Aelodau Arweiniol, Cynghorwyr D.I. Smith a H.C. Irving, ar gais y Pwyllgor.

Mynychodd y Cynghorydd M.L. Holland a G.M. Kensler fel Sylwedyddion.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Swyddog Gwella Corfforaethol (NK), Rheolwr Archwilio (BS), Swyddog Cwynion Corfforaethol (CO), Rheolwr Swyddfa Rhaglen Gorfforaethol (KA), Pensaer Rheoli Adeiladu a Chadwraeth (PE), Arbenigwr Cadwraeth a Rheolwr Prosiect (KH), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Owen

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Nid ddatganwyd unrhyw gysylltiadau personol na chysylltiadau sy'n rhagfarnu gan unrhyw Aelodau mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS GYDA CHYTUNDEB Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd Ddydd Iau 24 Hydref, 2013.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 ADEILADAU RHESTREDIG DAN FYGYTHIAD

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PCGC), ar gyflwr y stoc adeiladau rhestredig yn Sir Ddinbych, wedi'i gylchredeg yn flaenorol.

Rhoddodd y Cynghorydd D.I. Smith grynodeb byr o'r adroddiad a luniwyd yn sgil sefyllfa hen Ysbyty Gogledd Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dealltwriaeth glir o raddfa'r adeiladau rhestredig sydd dan fygythiad yn Sir Ddinbych a'r goblygiadau i'r Awdurdod, ynghyd â manylion Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol (ALl) dan y Ddeddf.

Nododd adroddiad gan Cadw yn 2009 fod 1812 o adeiladau rhestredig yn Sir Ddinbych, a dangosodd arolwg yn 2011 fod 148 o adeiladau Sir Ddinbych yn y categori "dan fygythiad". Roedd 35 o adeiladau Sir Ddinbych yn y categori gwaethaf o ran y bygythiad. Darparwyd tablau'n crynhoi nifer a chanran yr eiddo dan fygythiad yn Sir Ddinbych, ac yn genedlaethol.

Eglurodd y PCGC fod nifer o adeiladau yn y categori gwaethaf yn adeiladau neu adeileddau lle'r oedd y siawns y byddent yn ased ariannol i'r perchnogion yn isel iawn. Byddai perchenogion yn fwy tebygol o ystyried yr adeileddau'n faich ariannol yn hytrach nag yn ased a byddent yn gyndyn i wario arian ar atgyweirio a allai arwain at ddadfeilio. O'r 35 adeiledd gyda sgôr o 1 pwynt, roedd 13 yn y categori hwn. Roedd camau gorfodi'n debyg o arwain at gyflawni gwaith yn ddiofyn a cheisio adennill y gost gan y perchennog neu gyflawni pryniant gorfodol ar yr adeilad/adeiledd. Ni fyddai'r naill opsiwn na'r llan yn ddeniadol i'r Awdurdod Lleol.

Cadarnhaodd y Pensaer Rheoli Adeiladu a Chadwraeth (PRhACh) bod grantiau yn mynd yn fwyfwy prin. Yr unig gorff cyllido mawr sydd â chyllideb gynyddol ar gyfer grantiau yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac yn y gorffennol maent wedi ariannu cynlluniau grant ymbarél ac nid unigolion preifat. Roedd rhai adeiladau rhestredig yn cynnig cyfleoedd i ychwanegu gwerth drwy roi caniatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig i newid defnydd, a llwybr arall posibl oedd rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad galluogi. Gweithio gyda pherchennog i helpu gwella cyflwr adeiladau dan fygythiad oedd y dewis a ffafriwyd, ond mewn rhai achosion, y perchennog yn hytrach na'r adeilad fyddai'n achosi problemau.

Eglurodd y PCGC a'r PRhACh fod pwerau gorfodi yn cynnwys Hysbysiad Gwaith Brys a Hysbysiad Atgyweirio. Mae elfen o risg i'r pwerau hyn i ALl o ran costau cynnal y gwaith brys yn ddiofyn neu'r costau sy'n gysylltiedig â phrynu gorfodol a'r cyfrifoldeb o fod yn berchennog ar adeilad adfeiliedig yn sgil hynny. Roedd y pwerau'n ddewisol a dylid bod yn ofalus wrth eu defnyddio, fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle nad oedd unrhyw opsiwn arall, a lle gallem fod yn agos i golli'r adeilad yn llwyr, gallai penderfyniad i beidio â defnyddio pwerau gorfodi fygwth enw da'r Awdurdod .

Cyfeiriodd y PRhACh at y broses ymgynghori oedd yn cael ei chynnal mewn perthynas â newidiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru (LlC) i'r ddeddfwriaeth. Mynegodd bryder nad yw'r pwerau dan y ddeddfwriaeth bresennol yn addas i'w

pwrpas ac nad ydynt yn rhoi’r awdurdod sydd angen i ymyrryd yn briodol. Cytunodd yr aelodau y dylai’r Cadeirydd gyflwyno llythyr o gefnogaeth yn ategu’r farn a fynegwyd gan y PRhACh yn ei ymateb i’r ymgynghoriad ffurfiol, a oedd yn amlygu’r risgiau sy’n gysylltiedig ag agwedd gorfodi'r ddeddfwriaeth.

Ymatebodd y PRhACh i gwestiynau gan nifer o Aelodau a rhoddodd fanylion yn ymwneud ag adeileddau wedi’u lleoli yn yr ardaloedd unigol.

Roedd manylion y risgiau posibl wedi’u hymgorffori yn yr adroddiad. Mae goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau wrth fynd i’r afael ag adeiladau dan fygythiad ac roedd rhaid eu rheoli fesul achos. Mewn achosion eithriadol lliniarwyd ar y risgiau gymaint ag y bo modd ac mae’r prosiectau wedi bod yn destun cymeradwyaeth ac awdurdodiad ffurfiol.

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni cydnabuwyd yr angen i dargedu’r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol, ac felly roedd strategaeth adeiladau dan fygythiad yn cael ei drafftio a oedd yn archwilio sut y gellid gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyfyngedig. Roedd Atodiad 1 yn amlinellu’r Adeiladau categori 1 oedd Dan fygythiad yn Sir Ddinbych fesul cymuned.

Darparodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i faterion a chwestiynau a godwyd gan yr Aelodau:-

- rhoddodd y PRhACh fanylion y broses y bwriadwyd ei mabwysiadu mewn perthynas â chynnwys adeiladau oedd newydd gael eu rhestru.
- Rhagwelwyd y byddai cronfa ddata’n cynnwys manylion yr holl adeiladau rhestredig yn cael ei darparu yn y dyfodol a’i diweddaru’n rheolaidd.
- nid oedd proses apelio ffurfiol ar gyfer adeiladau rhestredig, fodd bynnag, gellid tynnu adeiladau oddi ar y rhestr os gellid dangos bod yr wybodaeth a arweiniodd at eu rhestru’n anghywir neu’n wallus.
- rhoddwyd cadarnhad y gellid rhoi Hysbysiad Cynnal i ddiogelu adeilad oedd dan fygythiad o gael ei ddymchwel neu ei addasu’n sylweddol, cyn cael archwiliad gan Cadw.
- rhoddodd y PRhACh sicrwydd bod mwyafrif yr adeiladau rhestredig roedd y Cyngor Sir yn berchen arnynt yn cael eu cynnal yn dda a’u cadw mewn cyflwr da.
- Gofynnodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus i’r Aelodau ei hysbysu ef neu’r swyddogion perthnasol os oeddent yn clywed fod adeiladau rhestredig yn eu rhanbarth etholiadol yn cael eu haddasu neu eu dymchwel heb y caniatâd gofynnol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD –*** *fod y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod yn: -*

*(a) derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac yn*
*(b) cytuno y dylai’r Cadeirydd gyflwyno llythyr o gefnogaeth yn ategu’r farn a fynegwyd gan y PRhACh yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig.*

## 6 EICH LLAIS – ADRODDIAD CHWARTER 2 2013/14

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (PCChA), oedd yn cynnig dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwyd drwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' ar gyfer Chwarter 2 2013/14, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd HC Irving yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â materion perfformiad. Eglurodd y PCChA fod Penawdau ar gyfer Chwarter 2 wedi'u cynnwys yn Atodiadau'r adroddiad ac amlygwyd crynodeb o'r pwyntiau perthnasol canlynol:-

- Roedd y Cyngor wedi derbyn 149 o gwynion.
- Roedd dros chwarter (26%) y cwynion yn ymwneud â Chynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Roedd hwn yn gynnydd o 488% o'i gymharu â Chwarter 1. Roedd bron i hanner y cwynion (44%) yn ymwneud â Gorfodi Diogelwch Cymunedol.
- Roedd y Cyngor wedi derbyn 261 o ganmoliaethau yn Chwarter 2, cynnydd o 264% o'i gymharu â Chwarter 1.
- Gwasanaethau Oedolion a Busnes dderbyniodd y nifer fwyaf o ganmoliaethau – 97 (37%).

Perfformiad

- Ymatebwyd i 97% o'r cwynion o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Roedd hyn yn cyfateb â pherfformiad Chwarter 1 ac yn rhagori ar y targed corfforaethol o 95%.
- Ymatebwyd i bob cwyn cam 2 a cham 3 o fewn terfynau amser 'Eich Llais', a oedd yn welliant ar Ch1.
- Llwyddwyd i ddelio ag 87% o'r cwynion yn ystod cam 1, gwelliant ar Chwarter 1 (86%).
- Amlygwyd fod gan ddau faes gwasanaeth statws OREN; sef Cyllid ac Asedau a Phriffyrdd ac Isadeiledd.
- Amlygwyd fod gan TGCh statws COCH.

Clywodd y Pwyllgor fod y cynllun Eich Llais yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod corfforaethol o fod yn "Gyngor gwych, sy'n agos at y gymuned". Roedd yr holl gostau sydd ynghlwm wrth adborth cwsmeriaid wedi'u cynnwys yn y cyllidebau presennol.

Dywedodd y Swyddog Cwynion Corfforaethol (SCC) wrth yr Aelodau bod y cyfeiriad yn Nhabl 1: Amseroedd ymateb cyffredinol i gwynion ar gyfer Chwarter 2 at "arall" 67%, ond yn berthnasol i ddwy gŵyn a dderbyniwyd mewn perthynas ag AD ac un yn ymwneud â TG.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, cadarnhaodd y PCChA mai Polisi'r Cyngor oedd darparu ymatebion Cymraeg i gwynion a dderbyniwyd yn y Gymraeg, a dylid anfon unrhyw achosion o anghysondeb at y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Cadarnhawyd hefyd y dylid darparu ymatebion ysgrifenedig i gwynion a gyflwynwyd gan Aelodau, ac os oedd yr Aelodau'n

anfodlon gyda'r ymateb a dderbyniwyd, dylid cyfeirio hyn at y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i sicrhau y targedwyd ardaloedd problemus. Dywedodd y PCChA wrth y Pwyllgor y byddai Gweithdy Aelodau'n cael ei gynnal ar y 13 Rhagfyr, 2013 pan fyddai arddangosiad o'r newidiadau i'r system Rheoli Cyswllt Cwsmer RhCC yn cael ei roi. Pwysleisiodd y PCChA bwysigrwydd sicrhau bod Aelodau'n defnyddio'r system RhCC hyd yn oed wrth gysylltu â swyddogion penodol.

Ymatebodd y SCC i gwestiwn gan y Cynghorydd R.J. Davies ac eglurodd bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda llywodraethwyr ysgolion ar y newidiadau i'r broses bresennol o gwyno am ysgolion. Cytunodd y PCChA y dylid dosbarthu'r ddogfen ymgynghori, a gylchredwyd yn ddiweddar i Lywodraethwyr Ysgol, i Aelodau'r Pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, llongyfarchodd Aelodau'r Pwyllgor y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg a'i staff am y gwaith a wnaed.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, fod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad a nodi perfformiad gwasanaethau wrth ddelio â chwynion.*

*Llongyfarchodd yr Aelodau'r Tîm Cwynion ar weinyddu'r broses gwynion yn effeithiol.*

## 7 ADOLYGU'R GOFRESTR RISGIAU CORFFORAETHOL

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad ynglŷn â'r diwygiad ffurfiol i'r fersiwn ddrafft ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ym mis Tachwedd, 2013 wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Corfforaethol (SGC) yr adroddiad a oedd yn cynnwys y fersiwn diweddaraf o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, fel y cytunwyd mewn Sesiwn Friffio'r Cabinet. Yn flaenorol, cyflwynwyd yr adroddiad i'r TGC yn unig. Fodd bynnag, roedd yn ddoeth i gynnwys Aelodau wrth ei ddatblygu a'i reoli. Ystyriwyd mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn oedd cynnwys Aelodau Arweiniol yn Sesiwn Friffio'r Cabinet.

Darparodd y SGC grynodeb fanwl i'r Aelodau o'r prif faterion i'w nodi ar gyfer y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G. Sandilands, esboniodd y SGC y rhagwelwyd y byddai'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei hadolygu nesaf ar ôl cytuno ar y gyllideb, ym mis Chwefror neu fis Mawrth, 2014.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D. Owens ynglŷn â lefel y risg mewn perthynas â diwygio DCC021: 'Y risg nad oes partneriaeth a rhyngwyneb effeithiol yn datblygu rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd), gan arwain at gam-alinio sylweddol rhwng cyfeiriad strategol a gweithredol BIPBC a CSDd'. Rhoddodd y SGC fanylion y proses farcio cyfraddau Risg Cynhenid a Gweddillol a sut oeddent yn berthnasol i DCC021.

Ymatebodd y CC:UECh i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch unrhyw oblygiadau posibl i Gyfarwyddiaethau o ganlyniad i ostyngiad yn lefel y gefnogaeth a ddarperir gan AD. Eglurwyd bod cynnwys AD ar y Gofrestr Risgiau'n dangos cydnabyddiaeth fod pryderon ynglŷn â lefel y cymorth sydd ar gael ar draws yr Awdurdod. Cadarnhaodd y CC:UECh fod Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella ar waith gan AD, ac roedd y mater hwn wedi'i amlygu yn dilyn Adolygiad Archwiliad Mewnol a'i ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Roedd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd, a oedd yn cynnwys lefel y cymorth a ddarparwyd i reolwyr a'r modd y byddai'n cael ei ddarparu. Eglurwyd fod yr Awdurdod wedi penderfynu newid y ffordd y darparwyd cymorth AD gydag AD yn darparu rôl gefnogol i reolwyr. Clywodd Aelodau y byddai adolygiad yn cael ei gynnal, ar ôl gweithredu'r gwelliannau, i werthuso'r canlyniadau. Roedd Her Gwasanaeth wedi'i drefnu ar gyfer y Gwasanaeth AD yn y dyfodol agos a gofynnwyd i gynrychiolydd y Pwyllgor, y Cynghorydd RJ Davies, fynegi pryderon y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, fod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r hyn a ddilëwyd a'r hyn a ychwanegwyd i'r Gofrestr Risg Corfforaethol.*

## 8 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL - CHWARTER 2 2013/14

Roedd copi o'r adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, a oedd yn rhoi diweddariad ar y gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd Chwarter 2 2013/14, wedi'i ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Gwella Corfforaethol (SGC) a Rheolwr Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol (RhSRhG) yr adroddiad a dywedodd fod adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn arfer ei ddyletswydd i wella. Mae'r Atodiad i'r adroddiad yn cyflwyno crynodeb o bob canlyniad yn y Cynllun Corfforaethol. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn nodi fod cynnydd derbyniol wedi'i wneud wrth gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol. Cydnabuwyd y byddai'n cymryd hirach i wella rhai meysydd nag eraill. Fodd bynnag, byddai'n bwysig deall sut y dylai'r daith tuag at welliant edrych ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o agweddau perfformiad allweddol y Cynllun Corfforaethol yn chwarter 2, a darparodd y SGC grynodeb manwl o bob un o'r canlyniadau yn yr Adroddiad Perfformiad. Cydnabu'r Pwyllgor ei bod yn dal yn gynnar yn oes y Cynllun Corfforaethol i gyflawni cynnydd sylweddol o ran cyflawni elfennau o rai o'r blaenoriaethau. Fodd bynnag, amlygodd yr Aelodau'r pryderon canlynol yn ymwneud â phedwar o'r blaenoriaethau canlynol: -

### Datblygu'r Economi Leol

- Canlyniad 5, 'Trefi a Chymunedau Llewyrchus', awgrymodd y Pwyllgor y dylid ystyried defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael fel dangosyddion ar gyfer mesur

ein llwyddiant i 'Fynd i'r afael ag Amddifadedd a Thlodi, yn enwedig mewn rhannau o'r Rhyl a Dinbych Uchaf'. I sicrhau cywirdeb efallai y byddai felly'n ddefnyddiol i ddefnyddio'r ffigyrau incwm canolrif 2012 ar gyfer y dangosyddion hyn.

- Canlyniad 6, 'Sir Ddinbych wedi'i hyrwyddo'n dda': gan ystyried nifer y tai newydd a gwblhawyd yn ystod hanner cyntaf 2013/14, roedd y Pwyllgor yn bryderus ynglŷn â gallu'r Cyngor i gyflawni ei CDLl o fewn yr amserlen ddisgwyliedig

**Gwella Perfformiad mewn Addysg ac Ansawdd Adeiladau ein Hysgolion**

- roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynglŷn â'r defnydd o ystafelloedd dosbarth symudol ar draws y Sir. O ganlyniad, gofynnwyd i adroddiad cynhwysfawr gael ei gyflwyno i'w ystyried ym mis Ionawr ar nifer, lleoliad, oed a chyflwr yr ystafelloedd dosbarth symudol yn ogystal ag ar gyflwr adeiladau ysgol yn gyffredinol ac ar ragolygon niferoedd disgyblion a lleoedd i ddelio â'r nifer o ddisgyblion a ragwelwyd yn ysgolion y sir.

**Strydoedd Glân a Thaclus**

- Canlyniad 11: roedd perfformiad yn erbyn y dangosydd ar glirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi bod yn achos pryder i'r Pwyllgor ers mis Medi 2013. Roedd gan y Pwyllgor bryderon hefyd ynglŷn â chywirdeb adroddiadau ystadegol yr Awdurdod ar y DP hwn ac wedi gofyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r aelodau ar y mater hwn yng nghyfarfod mis Ionawr ac y dylai'r adroddiad hefyd gynnwys diffiniad o ran sut y byddai "rhagoriaeth mewn perthynas â lleihau tipio anghyfreithlon" yn edrych.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon hefyd ynglŷn â'r nifer o Rybuddion Cosb Benodol (RhCB) a roddwyd a'r camau gorfodi a gymerwyd mewn perthynas â baw cŵn ar draws y sir, yn enwedig o'u cymharu â'r camau a'r nifer o RhCB a roddwyd am achosi ysbwriel. Codwyd pryderon tebyg gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau wrth ystyried yr adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Atal Baw Cŵn yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd.

**Sicrhau Mynediad at Dai o Ansawdd Da**

- Cwestiynodd y Pwyllgor berfformiad y Cyngor yn erbyn y mesur perfformiad yn ymwneud â % y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai a benderfynwyd o fewn 8 wythnos. Roedd Swyddogion eisoes wedi adrodd ar y mater i'r Pwyllgor ym mis Hydref ac er bod yr aelodau yn fodlon â'r wybodaeth a roddwyd, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n trefnu i gwrdd â'r Pennaeth Gwasanaeth i drafod y mater hwn ymhellach a gweld a ellid cymryd unrhyw gamau i wella perfformiad yn y maes hwn.

**Moderneiddio'r cyngor i fod yn effeithlon a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid"**

- Canlyniad 14: roedd gan y Pwyllgor bryderon ynglŷn â % y gwerthusiadau perfformiad a gwblhawyd a oedd yn llawer is na'r lefel dderbyniol o 95%. Er yn cydnabod y gallai fod gwallau yn y data, mynegodd yr Aelodau ddiddordeb mewn monitro'r sefyllfa yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion ar yr agweddau ariannol, ymgynghoriadau a gynhaliwyd, Datganiad y Prif Swyddog Cyllid a'r risgiau a'r camau a gymerwyd i'w lliniaru.

Yn dilyn trafodaethau pellach a derbyn yr ymatebion a ddarparwyd i gwestiynau gan Aelodau:-

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad:-*

- *(a) yn derbyn yr adroddiad, ac yn*
- *(b) Nodi'r pryderon a amlygwyd gan Aelodau ynglŷn â phump o'r blaenoriaethau corfforaethol.*

## 9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio, oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac yn darparu diweddariad ar faterion perthnasol, wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Roedd 'ffurflen gynnig', Atodiad 2, wedi'i derbyn i'w hystyried yn y cyfarfod a oedd yn ymwneud â'r Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Roedd y cais yn deillio o risg a nodwyd mewn adroddiad Archwilio Mewnol diweddar yn ymwneud â'r diffyg eglurder ynghylch y trefniadau llywodraethu Iechyd a Diogelwch. Cytunodd yr aelodau y dylid cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai, 2014.

Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau Pwyllgor diweddar ac a oedd yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'u gweithrediad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 4 yr adroddiad.

Ym mis Medi, roedd y Pwyllgor wedi gwneud cais i dderbyn adroddiad gwybodaeth ar ddefnydd yr Awdurdod o staff addysgu llanw. Oherwydd natur gymhleth y gwaith sydd ei angen i dynnu'r wybodaeth hon ynghyd eglurwyd na fyddai adroddiad ar gael tan dymor yr haf 2014.

Roedd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod ar 24 Hydref, 2013 a 5 Rhagfyr, 2013. Gwahoddodd y Cydlynydd Craffu sylwadau gan Aelodau ar Atodiad 2 y ddogfen Briffio Gwybodaeth a oedd yn cyfeirio at y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r wybodaeth a ddosbarthwyd, a oedd yn nodi y dylid penodi cynrychiolydd Pwyllgor i eistedd ar y Bwrdd, a chytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd G. Sandilands i eistedd ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Rhoddwyd cadarnhad y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i Aelodau a benodwyd i'r Bwrdd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd C. Hughes, rhoddodd y CC:UECh fanylion am aelodaeth y Bwrdd a chytunodd i ddarparu manylion pellach ynglŷn â hawl rhai nad ydynt yn aelodau i fynychu cyfarfodydd.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd C. Hughes ynghylch y diffyg cyllideb gynnal a chadw ar ôl cyfnod o chwe mis i ymgymryd â mathau penodol o waith cynnal a chadw tiroedd, Eglurodd y CC:UECh bod Rhaglen Wella'n cael ei chynnal yn y Gwasanaethau Tai ar hyn o bryd. Cytunodd Aelodau y dylid cynnwys adroddiad ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella, a allai helpu mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd, ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor ar gyfer mis Chwefror, 2014.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Raglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft ar gyfer cyfarfodydd i ddod, fel y manylir yn Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd canlynol:-

Dylid cynnwys adroddiad ar Leoedd Mewn Ysgolion ac Ystafelloedd Dosbarth Symudol ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 16 Ionawr, 2014.

***PENDERFYNWYD***:-

*a) y dylid cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau uchod, ac*
*b) y dylid penodi'r Cynghorydd Gareth Sandilands yn gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol*

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cynghorydd C. Hughes ei fod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod Cyllid ac Asedau diweddar, ac yr amlygwyd y meysydd canlynol: -

- Pryderon yn ymwneud â statws COG.
- Y nifer a oedd yn bresennol ar gyrsiau hyfforddiant caffael perthnasol, a oedd yn is na'r targed ar gyfer ymyrraeth. Rhoddwyd sicrwydd fod y mater hwn yn cael sylw, ynghyd â mater tebyg yn ymwneud â thendrau a dyfynbrisiau electronig.
- Roedd Cyllid ac Asedau wedi syrthio islaw eu targedau o safbwynt cwynion.
- Problemau a brofwyd mewn perthynas â gwybodaeth reoli o'r system TRENT.

Eglurodd y Cynghorydd D. Owens ei fod ef a'r Cynghorydd C. Hughes wedi bod i gyfarfod Eiddo ac Archwilio ar yr 11 Rhagfyr, 2013 ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd WL Cowie wrth y Pwyllgor fod cyfarfod gyda'r Rheolwr Adran: Rheoli Rhwydwaith wedi'i ohirio tan fis Ionawr, 2014.

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams ei fod wedi bod i gyfarfod paratoadol cyn yr Her Gwasanaeth ym mis Tachwedd i ddewis cwestiynau i'w cyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden.

Mynegodd y Cynghorydd Lloyd-Williams ei syndod at rai o'r cwestiynau a ddewiswyd ar gyfer yr Her Gwasanaeth. Eglurodd ei fod wedi cwrdd â'r Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yn ddiweddar, a dywedodd wrth y Pwyllgor ei

bod yn galonogol i weld yr amrywiaeth eang o ddigwyddiadau chwaraeon newydd a gynlluniwyd yn Sir Ddinbych. Cyfeiriwyd at y rhaglen tair blynedd ar gyfer Rali Cymru Prydain a rhoddwyd cadarnhad y byddai Sir Ddinbych yn flaenllaw mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

Eglurodd y Cynghorydd R.J. Davies fod cyfarfod wedi'i drefnu ynglŷn ag Ymholiadau ar gyfer AD ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd G. Sandilands wedi bod i gyfarfod Grŵp Buddsoddi Strategol, lle y cytunwyd i ddarparu cyllid ar gyfer bwnd Glasdir.

***PENDERFYNWYD -*** *y dylid derbyn a nodi cynnwys yr adroddiadau.*

***Daeth y Cyfarfod i ben am 12.25p.m.***